

Tracy Thomas.
30.3.17.

53

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2017 Rhif ^{A80} (Cy. ¹⁰¹)

2017 No. ^{A80} (W. ¹⁰¹)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r
A494 (Ffordd Osgoi Dolgellau,
Gwynedd) (Codi Cyfyngiad a
Gosod Terfynau Cyflymder 50 mya
a 30 mya) 2017

The A470 and A494 Trunk Roads
(Dolgellau By-Pass, Gwynedd)
(De-Restricted Road and 50 mph
and 30 mph Speed Limits) Order
2017

Gwnaed 21 Mawrth 2017
Yn dod i rym 22 Mawrth 2017

Made 21 March 2017
Coming into force 22 March 2017

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A470) a Chefnffordd Dolgellau i'r De o Benbedw (yr A494), drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adranau 84(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the Fishguard to Bangor Trunk Road (A470) and the Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road (A494) in exercise of the powers conferred upon them by sections 84(1) and (2) to the Road Traffic Regulation Act 1984(1) and after consultation with the Chief Officer of North Wales Police, make this Order.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

Title, Interpretation and Commencement

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 22 Mawrth 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A494 (Ffordd Osgoi Dolgellau, Gwynedd) (Codi Cyfyngiad a Gosod Terfynau Cyflymder 50 mya a 30 mya) 2017.

1. This Order comes into force on 22 March 2017 and its title is The A470 and A494 Trunk Roads (Dolgellau By-Pass, Gwynedd) (De-Restricted Road and 50 mph and 30 mph Speed Limits) Order 2017.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw:

"exempted vehicle" ("cerbyd esempt") means:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion yr aelod o lluoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Codi Cyfyngiad

3. Bydd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Cyfyngiadau

4. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

(a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2);

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

- (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the home forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director.

De-Restriction

3. The lengths of the trunk road specified in Schedule 1 shall cease to be a restricted road for the purposes of section 81 of the Act of Road Traffic Regulation Act 1984.

Restrictions

4. No person shall drive any vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 50 miles per hour on those lengths of the trunk road specified in Schedule 2.

5. No person shall drive any vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 30 miles per hour in the length of the trunk road specified in Schedule 3.

(2) 1984 p. 27; diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 2 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8(2) i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p. 22), (mae'r amnewidiadau yn cael effaith drwy O.S. 2013/1682 yn ddarostyngedig i'r arbedion a'r darpariaethau trosiannol a bennir yn adran 15 o Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac Atodlen 8 iddi ac adran 50(5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(2) 1984 c.27; Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 2, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), schedule 8(2), paragraph 29(2) (substitution has effect as SI 2013/1682 subject to savings and transitional provisions specified in section 15 of, and Schedule 8 to, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(5)).

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

21 Mawrth 2017

N Ley

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, one of the Welsh Ministers.

Dated

21 March 2017

N Ley

Nina Ley

Head of Business Unit, Network Management
Welsh Government

ATODLEN 1

CODI CYFYNGIAD

Y darn o Gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o bwynt 66 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt cyffordd gylchfan yr A470/A494 hyd at bwynt 73 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt cyffordd gylchfan yr A470/A494.

Y darn o Gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o bwynt 60 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt cyffordd gylchfan yr A470/A494 hyd at bwynt 74 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt cyffordd gylchfan yr A470/A494.

ATODLEN 2

TERFYN CYFLYMDER 50 MYA

Y darn o Gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o bwynt 66 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt cyffordd gylchfan yr A470/A494 hyd at bwynt 410 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt cyffordd gylchfan yr A470/A494.

Y darn o Gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o bwynt 60 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt cyffordd gylchfan yr A470/A494 hyd at bwynt 705 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt cyffordd gylchfan yr A470/A494.

ATODLEN 3

TERFYN CYFLYMDER 30 MYA

Y darn o Gefnffordd yr A494 sy'n ymestyn o bwynt 104 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt cyffordd gylchfan yr A470/A494 hyd at bwynt 250 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt cyffordd gylchfan yr A470/A494.

SCHEDULE 1

DE-RESTRICTED ROAD

The length of the A470 Trunk Road that extends from a point 66 metres west of the centre-point of the A470/A494 junction roundabout to a point 73 metres west of the centre-point of the A470/A494 junction roundabout.

The length of the A470 Trunk Road that extends from a point 60 metres east of the centre-point of the A470/A494 junction roundabout to a point 74 metres east of the centre-point of the A470/A494 junction roundabout.

SCHEDULE 2

50 MPH SPEED LIMIT


The length of the A470 Trunk Road that extends from a point 66 metres west of the centre-point of the A470/A494 junction roundabout to a point 410 metres west of the centre-point of the A470/A494 junction roundabout.

The length of the A470 Trunk Road that extends from a point 60 metres east of the centre-point of the A470/A494 junction roundabout to a point 705 metres east of the centre-point of the A470/A494 junction roundabout.

SCHEDULE 3

30 MPH SPEED LIMIT

The length of the A494 Trunk Road that extends from a point 104 metres northeast of the centre-point of the A470/A494 junction roundabout to a point 250 metres northeast of the centre-point of the A470/A494 junction roundabout.



YGC
F f y r d d
R o a d s

DARLUNWYD GAN: DRAWN BY:	JCR	DYDDIAD DARLUNWYD: DATE DRAWN:	18/03/2016
GWIRWYD GAN: CHECKED BY:	DWR	DYDDIAD GWIRWYD: DATE CHECKED:	18/03/2016
Tallen Sheet	1 of 1	GRADDYDD: SCALES:	1:5000 @ A4
Rhif Llundiad Drawing No.	5091/MI/08	CYWI REV:	D

CYNLLUN / SCHEME:
A470 Ffordd Osgoi Dolgellau Bypass
A470 Dolgellau Bypass

TEITL LLUNIAD / DRAWING TITLE:
GORCHYMYN CYFYNGIAD TRAFFIG BARHAOL
PERMANENT TRAFFIC ORDER RESTRICTIONS